Cyllid & Thollau EM

## CIS – nodiadau arweiniol i gyd-fynd â'r ffurflen 'CIS – cofrestru fel unigolyn i dderbyn taliadau gros'

# Bydd y nodiadau hyn yn eich helpu i lenwi'r fersiwn bapur o ffurflen CIS302 'CIS – cofrestru fel unigolyn i dderbyn taliadau gros'.

### Cofrestru dros y ffôn

Gallwch gofrestru ar gyfer Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS) a gwneud cais am daliadau gros drwy ffonio'r Ganolfan Cyswllt Cymraeg ar **0300 200 1900**.

Ni allwch gofrestru ar-lein ar gyfer derbyn taliadau gros.

### Cofrestru ac amodau taliadau gros

Er mwyn gwneud cais i gofrestru o dan y CIS newydd a sicrhau bod contractwyr yn eich talu'n llawn, mae'n rhaid i'ch busnes:

- gael ei redeg yn y DU gyda chyfrif banc
- cael trosiant net sy'n £30,000 o leiaf y flwyddyn
- wedi bodloni ei holl rwymedigaethau parthed treth

Gelwir y profion hyn yn brawf busnes, prawf trosiant a phrawf cydymffurfio. Mae esboniad yn eu cylch isod.

### Prawf busnes

Er mwyn pasio'r prawf hwn, mae'n rhaid bod eich busnes yn gallu dangos y canlynol:

- mae'n cynnal gwaith adeiladu yn y DU neu'n darparu llafur ar gyfer gwaith o'r fath, ac
- mae'n cael ei redeg gyda chyfrif banc

### Prawf trosiant

Mae'r prawf hwn yn seiliedig ar 'drosiant net'. Dyma eich incwm gros o waith adeiladu, ac eithrio TAW a chostau deunyddiau.

Er mwyn pasio'r prawf hwn, mae'n rhaid i chi ddangos mai £30,000 o leiaf oedd trosiant adeiladu net y busnes yn y 12 mis cyn i chi wneud cais am daliadau gros.

Os nad yw eich trosiant net yn ddigon i basio'r prawf, ond nid yw cyfanswm eich trosiant o bob ffynhonnell yn y 12 mis hyd at adeg gwneud y cais yn llai na'r trothwy, mae'n dal i fod yn bosibl i chi basio'r prawf. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar dudalennau 3 a 4

**Cysylltiadau**

**Canolfan Cyswllt Cymraeg**
Ffôn **0300 200 1900**

**Llinell Gymorth CIS**
Ffôn **0300 200 3210**

**Llinell Archebu CIS**
Ffôn **0300 200 3210**

**Y Rhyngrwyd**
**www.hmrc.gov.uk/ new-cis**

Mae'r llyfryn hwn ar gael mewn print bras. Os ydych am gael copi, rhowch alwad i'r Ganolfan Cyswllt Cymraeg ar **0300 200 1900**.

Yr Iaith Gymraeg/Welsh language. Ffoniwch **0300 200 1900** i dderbyn fersiynau Cymraeg o ffurflenni a chanllawiau.

## Prawf cydymffurfio

Er mwyn pasio'r prawf cydymffurfio, dylech fod wedi gwneud y canlynol yn y 12 mis hyd at ddyddiad y cais i dderbyn taliadau gros:

- llenwi a chyflwyno pob Ffurflen Dreth a anfonwyd atoch
- cyflwyno gwybodaeth rydym wedi gofyn amdani am eich treth
- talu'r holl dreth a oedd arnoch chi neu'r busnes erbyn y dyddiadau cau
- talu eich holl gyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) eich hun erbyn y dyddiadau cau
- talu treth TWE a CYG sydd arnoch fel cyflogwr erbyn y dyddiadau cau
- talu didyniadau sydd arnoch fel contractwr yn y diwydiant adeiladu erbyn y dyddiadau cau

Wrth ystyried a ydych wedi pasio'r prawf cydymffurfio, byddwn yn diystyru'r canlynol yn ystod yr un cyfnod o 12 mis:

- tri achlysur o gyflwyno Datganiad Misol y Contractwr yn hwyr – hyd at 28 diwrnod yn hwyr
- tri achlysur o dalu didyniadau TWE/CYG/CIS yn hwyr – hyd at 14 diwrnod yn hwyr
- unrhyw Ddatganiad Diwedd Blwyddyn y cyflogwr a gyflwynwyd yn hwyr
- un achlysur o dalu eich treth hunanasesiad yn hwyr – hyd at 28 diwrnod yn hwyr
- unrhyw Ffurflen Dreth Hunanasesiad a gyflwynwyd yn hwyr
- unrhyw fethiannau a ystyriwyd eu bod yn rhai 'bach a thechnegol' mewn perthynas â'ch rhwymedigaethau o dan yr hen gynllun pan fo'r rhain yn digwydd o fewn y cyfnod o 12 mis hyd at adeg gwneud eich cais

Os nad yw eich cais am gael eich talu'n gros yn llwyddiannus, caiff eich taliadau CIS eu talu drwy gyfrwng tynnu didyniadau ar gyfrif eich bil treth a CYG terfynol. Byddwn yn ysgrifennu atoch i roi'r union resymau pam na fuoch yn llwyddiannus, ynghyd ag arweiniad ar sut y gallwch apelio.

# Llenwi'r ffurflen gofrestru

## Help ac arweiniad

Bydd y nodiadau arweiniol hyn yn eich helpu i lenwi eich ffurflen gofrestru. Nid ydynt yn cynnwys nodiadau fesul blwch, ond yn hytrach nodiadau ar gyfer blychau penodol pan fydd angen rhagor o help arnoch neu wybodaeth amdanynt, o bosibl. Rydym yn hapus i helpu os nad ydych yn siŵr am rywbeth. Rhowch alwad i'r Ganolfan Cyswllt Cymraeg ar **0300 200 1900**.

## Manylion personol

6 **Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR)**
Rhowch y cyfeirnod a roddwyd i chi at ddibenion Hunanasesiad pan wnaethoch gofrestru ar gyfer hunangyflogaeth. Mae hwn hefyd i'w weld ar eich Ffurflen Dreth, Datganiadau, neu hysbysiadau Taliadau ar Gyfrif.
Os nad oes gennych UTR, cysylltwch â'r Ganolfan Cyswllt Cymraeg i gael rhagor o wybodaeth.

7 **Rhif Yswiriant Gwladol, os oes gennych un**

Gallwch ddod o hyd i'ch rhif Yswiriant Gwladol ar y canlynol:

- eich bil CYG Dosbarth 2 neu ddebyd uniongyrchol y banc
- dogfen neu lythyr gan y Swyddfa CYG, yr Asiantaeth Fudd-daliadau neu'r Adran Gwaith a Phensiynau, gan gynnwys
  - Cerdyn Yswiriant Gwladol, RD3
  - Nodyn diffyg, RD170
  - Cywiriad i rif Yswiriant Gwladol, CA6856
- gohebiaeth gan CThEM sy'n dangos eich rhif Yswiriant Gwladol

Os **nad oes gennych** rif Yswiriant Gwladol, neu os na allwn wirio'r rhif a roddwyd gennych gyda'n cofnodion, bydd yn rhaid i chi ffonio'r Ganolfan Cyswllt Cymraeg ar **0300 200 1900** i drefnu cyfarfod gydag Ymgynghorydd Symudol. Yn y cyfarfod hwn, bydd yn rhaid i chi roi 2 brawf sy'n dangos pwy ydych. Yn ddelfrydol, dylai un ohonynt ddangos llun ohonoch. Dyma'r mathau o ddogfennau sy'n dderbyniol:

- tystysgrif eni
- pasbort
- trwydded yrru
- bil cyfleustodau
- bil treth gyngor

10 **Rhowch y dyddiad y dechreuoch weithio yn y diwydiant adeiladu**

Mae'r wybodaeth hon yn ffurfio rhan o'r prawf busnes ar gyfer derbyn taliadau gros. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi roi tystiolaeth i ategu'r dyddiad hwn.

## Prawf trosiant

17 **Os £30,000 neu fwy oedd eich trosiant adeiladu net yn y 12 mis diwethaf, llenwch y blychau.**

**A. Swm gros y taliadau (heb gynnwys TAW)**

Er mwyn cyfrifo'r swm hwn, adiwch yr holl incwm a gawsoch o waith adeiladu at ei gilydd, gan gynnwys cost y deunyddiau rydych wedi eu cyflenwi yn y cyfnod.
Peidiwch â chynnwys TAW.

Mae incwm adeiladu yn cynnwys unrhyw arian gan unrhyw gleient ar gyfer gwaith adeiladu. Er enghraifft:

- gosod
- atgyweirio
- plymio
- gwaith trydanol
- paentio ac addurno
- dymchwel

**B. Cost y deunyddiau (heb gynnwys TAW)**

Er mwyn cyfrifo'r gost hon, adiwch at ei gilydd yr holl symiau rydych wedi eu gwario ar ddeunyddiau a ddefnyddiwyd gennych yn ystod y cyfnod. Peidiwch â chynnwys TAW.

Mae 'deunyddiau' yn golygu cost (heb gynnwys TAW):

- tir, deunyddiau adeiladu a defnyddiau traul
- tanwydd neu beiriannau
- y swm gwirioneddol a wariwyd gennych ar hurio peiriannau
- unrhyw swm mewn perthynas â lefi Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu

**Peidiwch â chynnwys:**

- treuliau teithio
- tanwydd ar gyfer teithio
- cost prynu sgaffaldiau os ydych yn isgontractiwr sgaffaldiau

**C. Trosiant adeiladu net (A llai B)**

Rhowch y manylion yn ôl y gofyn.

| **Enghraifft** | |
|---|---|
| Swm gros y taliadau (heb gynnwys TAW) | £37,000.00 |
| Llai cost y deunyddiau (heb gynnwys TAW) | £5,000.00 |
| Trosiant net o waith adeiladu | **£32,000.00** |

Fel rhan o'r prawf trosiant, mae'n rhaid i chi allu rhoi tystiolaeth er mwyn dangos sut y gwnaethoch gyfrifo'r ffigurau a ddefnyddir yn y prawf. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos mai £30,000 o leiaf oedd eich trosiant adeiladu net yng nghyfnod y cais.

Gallwch wneud cais am daliadau gros o hyd os nad yw eich busnes yn ymgymryd â gweithrediadau adeiladu yn bennaf, a £30,000 neu'n llai yw eich trosiant adeiladu net, ond mae cyfanswm trosiant eich busnes o bob ffynhonnell yn y 12 mis hyd at ddyddiad y cais yn fwy na'r trothwy. daliadau gros.

Rhowch fanylion eich trosiant gros, ynghyd â swm y trosiant adeiladu ar daflen ar wahân. Bydd angen i chi hefyd roi enwau a chyfeiriadau'r contractwyr rydych wedi gweithio iddynt, gwerth pob contract a'r dyddiad y cytunwyd ar y contract.

Rhaid i dystiolaeth ddangos ar gyfer y cyfnod rydych wedi ei ddefnyddio:

- y dyddiadau y derbyniwyd y taliadau
- swm gros pob taliad a dderbyniwyd fel rhan o Gynllun y Diwydiant Adeiladu
- taliadau gros llai TAW ar gyfer unrhyw waith preifat
- cost deunyddiau (llai TAW) a ddefnyddiwyd

Codir cosbau am wneud ceisiadau ffug. Os ydych yn rhoi gwybodaeth anwir, ni roddir statws taliadau gros i chi a gellir codi cosb o hyd at £3,000 arnoch.

## Manylion eich cyflogaeth

Fel rhan o'ch cais, bydd angen i ni gael manylion llawn amgylchiadau eich cyflogaeth ar gyfer y 12 mis blaenorol.

21 **A ydych wedi bod mewn cyflogaeth neu hunangyflogaeth lawn dros y 12 mis blaenorol?**

Os nad ydych yn ateb y cwestiwn hwn, mae'n bosibl na chewch taliadau gros.

Os ydych yn rhoi 'X' yn y blwch 'Na', bydd yn rhaid i chi roi gwybod i ni pam nad ydych wedi bod mewn cyflogaeth neu hunangyflogaeth, a'r dyddiadau dan sylw. Er enghraifft, efallai i chi fod yn ddi-waith, mewn addysg amser llawn, yn gweithio dramor, neu mae'n bosibl bod rhesymau eraill gennych.

Efallai y byddwn yn gofyn i chi roi tystiolaeth ddogfennol o amgylchiadau eich cyflogaeth dros y 12 mis blaenorol.

Os ydych yn cael cyfarfod ag Ymgynghorydd Symudol i gyflwyno prawf sy'n dangos pwy ydych, bydd yn rhaid i chi roi'r canlynol hefyd:

- tystiolaeth o fanylion eich cyflogaeth yn ystod y 12 mis diwethaf
- dogfennaeth o ran eich cyfrif banc i fodloni'r prawf busnes
- tystiolaeth ddogfennol ar gyfer y prawf trosiant. Er enghraifft, anfonebau a dalwyd, datganiadau o ddidyniadau CIS, manylion cyfrifon
- **os ydych yn byw dramor, neu wedi bod yn byw dramor** yn ystod y 12 mis diwethaf, tystiolaeth i ddangos eich bod wedi bodloni rhwymedigaethau treth y wlad roeddech yn preswylio ynddi.

## Preifatrwydd a Diogelu Data

**Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth**

Mae Cyllid a Thollau EM yn Rheolwr Data o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys at ddibenion asesu a chasglu trethi a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hynny.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth iddyn nhw. Os gwnawn hynny, bydd yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu yn unig, a hynny er mwyn:

- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus

Efallai y byddwn yn cymharu gwybodaeth a dderbyniwn amdanoch â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth a roddwyd gennych chi, yn ogystal â chan eraill, megis adrannau neu asiantaethau eraill y llywodraeth ac awdurdodau treth a thollau tramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i Gyllid a Thollau EM, onid yw'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn **www.gov.uk/eich siarter**